Chwarelwyr



Cafodd yr odynau ar y Mynydd Du eu hadeiladu, eu llenwi a'u cynnal a'u cadw gan chwarelwyr. Roedd mwyafrif y chwarelwyr yn ffermwyr. Roedden nhw'n rhentu tir ar y Mynydd Du er mwyn adeiladau odynau a llosgi calch. Roedd arnyn nhw angen y calch brwd a oedd yn cael ei greu ar gyfer eu caeau eu hunain.

Byddai'r chwarelwyr yn aros yn y chwarel drwy'r wythnos, gan fyw mewn cytiau bychain ar ben yr odynau. Roedden nhw'n dod â bwyd gyda nhw, ac os oedd y bwyd yn dod i ben, roedd yn rhaid iddyn nhw ddal cwningod neu lwgu.

Roedd llenwi a gwagu'r odynau yn waith poeth a pheryglus. Roedd y tarth o'r calchfaen a'r glo yn llosgi yn gwneud anadlu'n anodd, ac roedd y calch brwd yn gallu llosgi'r croen a gwneud dolur i'r llygaid.

Roedd hefyd yn waith corfforol caled gan fod y chwarelwyr yn gorfod defnyddio ceibiau a rhofiau trwy'r dydd i lwytho'r ceirt â chalchfaen.

Roedd tanio wyneb craig y chwarel hefyd yn beryglus, ac mae'n debyg fod damweiniau'n digwydd yn aml.

Cronfa Datblygu Cynaliadwy Sustainable Development Fund
Canolfan y Mynydd Du Black Mountain Centre
ymddiriedolaeth archaeolegol DYFED archaeological trust
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
National Waterfront Museum